Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

20 Tachwedd 2026

TEITL: Fframwaith Polisi

AWDUR: Alwen Williams, Prif Weithredwr
David Hole, Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r CBC er mwyn hysbysu'r aelodau am y cynigion a'r amserlen ar gyfer mabwysiadu'r gwahanol bolisïau y mae'n ofynnol iddo eu mabwysiadu.

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig
i gymeradwyo:

2.1 i bolisïau cyflogaeth adnoddau dynol gweithredol gael eu trin o dan y trefniant dirprwyo presennol i'r Prif Weithredwr, yn ddarostyngedig i'r mesurau diogelu ym mharagraff 4.3;

2.2 dirprwyaeth holl bolisïau gweithredol sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gwybodaeth, sy'n gweithredu rhwymedigaethau statudol presennol a pholisi a gymeradwywyd gan y CBC, i'r Prif Weithredwr yn ddarostyngedig i'r gofynion ymgynghori yn adran 6. Nid yw hyn yn cynnwys penderfyniadau a gedwir yn ôl gan ddeddfwriaeth neu'r Cyfansoddiad, na pholisïau sy'n ymwneud â dewisiadau strategol neu gorfforaethol sylweddol, y mae'n rhaid eu cyfeirio at y CBC.

i nodi:

2.3 y caiff y polisïau sy'n weddill ac wedi eu rhestru yn Atodiad 1 eu cyflwyno i gyfarfodydd CBC yn y dyfodol i'w cymeradwyo, fel a nodir yn yr atodiad.

3. RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

Mae'n ofynnol i'r CBC, o dan ddeddfwriaeth, fabwysiadu polisïau penodol. Y CBC ei hun sy'n parhau i fod â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau, oni bai ei fod yn dewis dirprwyo penderfyniad mewn perthynas â pholisi. Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 yn atal y CBC rhag dirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r canlynol:

- Cymeradwyo polisi trafnidiaeth, neu ddiwygiad i bolisi o'r fath;
- Camau rhagnodedig mewn cysylltiad â datblygu neu ddiwygio cynllun datblygu strategol;
- Cytuno ar gyfrifiadau, neu gyfrifiadau diwygiedig, o ofynion y gyllideb.

Nid yw'r enghreifftiau hyn yn holl gynhwysfawr. Dim ond pan fo deddfwriaeth a'r Cyfansoddiad yn caniatáu hynny y gellir dirprwyo penderfyniadau eraill, yn ddarostyngedig i gwmpas ac amodau'r dirprwyo perthnasol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1 Ystyrir bod penderfyniadau polisi arferol yn addas i gael eu gwneud gan y Prif Weithredwr, ond dim ond o fewn y terfynau a nodir ym mharagraff 2.2 a'r Cynllun Dirprwyo presennol.

4.2 Mae'r polisïau a restrir yn Atodiad 1 naill ai wedi'u cadw i'r CBC wneud penderfyniad arnynt, neu ystyrir eu bod yn briodol i'r CBC wneud penderfyniad arnynt. Mae'r polisïau hyn yn dal i gael eu datblygu gan swyddogion, a gofynnir i'r aelodau nodi y byddant yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd dilynol y CBC. Nodir yn yr atodiad y cyfarfod y bwriedir cyflwyno pob polisi iddo i'w gymeradwyo, ond gall yr amserlen hon amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys yr etholiadau ym mis Mai.

4.3 Mae'r Cynllun Dirprwyo presennol (adran 8(1), paragraff 7) yn awdurdodi'r Prif Weithredwr i gymeradwyo polisïau cyflogaeth AD gweithredol newydd a newidiadau i bolisïau presennol yn ôl yr angen. Ni chynigir dirprwyo cyffredinol newydd mewn perthynas â'r holl bolisïau AD. Mae'r awdurdod hwnnw'n parhau i fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth, y Cyfansoddiad, a chyllidebau a pholisïau cymeradwy. Rhaid cyfeirio materion a gedwir yn ôl i'r aelodau, neu sydd angen penderfyniad gan yr aelodau oherwydd eu harwyddocâd strategol, at y corff aelodau priodol. Bydd y polisïau AD sy'n cael eu mabwysiadu yn seiliedig yn fras ar y rhai a fabwysiadwyd gan Gyngor Gwynedd, os nad yn union yr un fath â hwy.

5. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

Nid oes unrhyw oblygiadau sylweddol o ran adnoddau yn deillio o'r penderfyniadau a geisir yn yr adroddiad hwn. Bydd angen amser swyddogion i fwrw ymlaen â'r polisïau, ond gellir gwneud hyn fel rhan o waith arferol.

6. YMGYNGHORIAD

Bydd y gofynion ymgynghori ar gyfer pob polisi yn cael eu hasesu cyn ei fabwysiadu, gan roi sylw i ddeddfwriaeth, safonau perthnasol, ymrwymiadau presennol a'r unigolion yr effeithir arnynt. Lle bo cynnwys polisi yn ymwneud yn sylweddol â chyfrifoldebau'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â rheoli risg, rheolaeth fewnol neu lywodraethu corfforaethol, ymgynghorir â'r Is-bwyllgor cyn mabwysiadu'r Polisi Diogelu Data a'r Polisi Rhyddid Gwybodaeth (FOI), ac unrhyw bolisïau eraill sy'n dod o fewn y cylch gwaith hwnnw. Bydd ei gyngor yn llywio penderfyniad y CBC neu'r swyddog sydd â'r awdurdod dirprwyedig perthnasol. O ran polisïau AD, ymgynghorir â staff ac undebau llafur cydnabyddedig fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac yn unol â'r trefniadau cyflogaeth ac ymgynghori perthnasol.

7. ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

Bydd pob polisi yn cael ei asesu wrth iddo gael ei ddatblygu a chyn ei fabwysiadu o ran ei effeithiau ar gydraddoldeb, y Gymraeg, llesiant, bioamrywiaeth ac unrhyw effeithiau perthnasol eraill, mewn modd sy'n gymesur â'i gynnwys ac fel sy'n ofynnol o dan y dyletswyddau a'r safonau perthnasol. Bydd yr asesiad, canfyddiadau'r ymgynghoriad ac unrhyw fesurau lliniaru yn cael eu cyflwyno i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad a byddant yn llywio'r polisi. Nid yw cymeradwyo'r fframwaith hwn yn pennu effeithiau polisïau sy'n dal i gael eu datblygu.

8. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

Mae gan y CBC gyfrifoldeb statudol i fabwysiadu amrywiol bolisïau. Yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a grynhoir yn adran 3 o'r adroddiad hwn, caiff y CBC ddirprwyo'r penderfyniad i fabwysiadu polisïau naill ai i is-bwyllgor neu i swyddogion. Mae unrhyw ddirprwyo yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r holl gyfyngiadau statudol, y Cyfansoddiad, a chyllidebau a pholisïau cymeradwy'r CBC. Rhaid i bob polisi gael ei fabwysiadu gan y corff neu'r swyddog sydd â'r awdurdod cyfreithiol i wneud hynny, yn dilyn yr ymgynghoriad a'r asesiad effaith sy'n ofynnol ar gyfer y polisi hwnnw.

9. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol yn deillio o'r adroddiad hwn.

10. ATODIADAU

Atodiad 1 Rhestr o bolisïau i'w cyflwyno i gyfarfodydd dilynol y CBC.

11. DOGFENNAU CEFNDIROL

Dim.

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:
"Mae'r adroddiad yn gwahaniaethu'n briodol rhwng polisïau gweithredol y gall swyddogion wneud penderfyniadau yn eu cylch a materion y mae angen cymeradwyaeth yr aelodau arnynt. Mae'r trefniadau arfaethedig yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth, y Cyfansoddiad a'r gofynion perthnasol o ran ymgynghori ac asesu effaith. Ar y sail honno, rwy'n fodlon â'r argymhellion."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:
"Rwyf yn fodlon nad oes ymrwymiadau ariannol yn deillio o'r penderfyniad a geisir, a fod y trefniadau yn cynnig trefniadau effeithlon o weithredu tra'n cynnal lefel briodol o ddirprwyo."

ATODIAD 1: Rhestr o bolisïau i'w cyflwyno i gyfarfodydd dilynol y CBC.

ENW	MATH O BOLISI	LLWYBR CYMERADWYAETH

Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Chod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.	Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i sefydliadau sector cyhoeddus i ymrwymo i'w Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r rhai sy'n llofnodi'r Cod yn ymrwymo i lunio a chyhoeddi datganiad blynyddol sy'n egluro'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern o fewn eu sefydliad a'u cadwyni cyflenwi.	Cyfarfod CBC Ionawr neu Fawrth 2027.
Datganiad ac Amcanion Llesiant	Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau) a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyrff sy'n ddarostyngedig i Ran 2 a Rhan 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	Cyfarfod CBC March 2027.
Cynllun Cydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau	Mae Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau) 2021 yn diwygio adran 6 o Ddeddf 2016 i gynnwys CBCau o fewn y diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus' yn adran 6(9), ac felly maent yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd bioamrywiaeth.	Cyfarfod CBC Ionawr neu Fawrth 2027.
Strategaeth Tlodi Plant	Mae Rheoliadau Strategaeth Tlodi Plant (Cyd-bwyllgorau Corfforedig) (Cymru) 2021 yn nodi'r gofynion o ran paratoi, adolygu, adnewyddu, cyhoeddi ac archwilio strategaeth tlodi plant a baratoir gan Gyd-bwyllgorau Corfforedig o dan adran 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.	Cyfarfod CBC – i'w benderfynu.